

Cyflwyno

Safleoedd Milwrol yr Ugeinfed Ganrif

Introducing

Twentieth-Century Military Sites

The logo for Cadw, the Welsh heritage organization, featuring a white cross symbol on a green background.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts



Cyflwyniad

Ymgwymerwyd â phrosiectau adeiladu milwrol sylweddol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–18), yr Ail Ryfel Byd (1939–45), a'r cyfnod a elwir y Rhyfel Oer yn ystod y 1950au a'r 1960au.

Yn ystod y Rhyfeloedd Byd, galwyd miloedd o bobl i'r fyddin a chrynhowyd adnoddau ar raddfa enfawr. Erbyn diwedd yr Ail Ryfel Byd, roedd 20 y cant o dir Prydain yn cael ei ddefnyddio at ddibenion milwrol: roedd rhyfel diymatal yn cynnwys pob cymuned a phob unigolyn.

Mae'r daflen hon yn rhan o fenter newydd i asesu olion milwrol yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd a'u rôl, a gweithio gyda'r perchenogion a'r deiliaid i sicrhau y gellir amddiffyn a dehongli'r safleoedd hyn.

Uchod: Ffesydd ymarfer o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhenalun, Sir Benfro. © Hawlfraint y Goron: CBHC

Uchod dde: Targedau maes tanio tanciau ac awyrennau o Gastellmartin, Sir Benfro, o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. © CBHC

Clawr blaen: Amddiffynfeydd arfordirol yr Ail Ryfel Byd — aliniad rhwystrau gwrth-danciau yn y Friog, Gwynedd. © Cadw

Beth sydd allan yno?

Mae nifer ac amrywiaeth fawr o safleoedd wedi goroesi ers y ddau Ryfel Byd, yn cynnwys meysydd awyr, caerau tanddaearol, amddiffynfeydd arfordirol, safleoedd gynnu gwrth-awyrennau, safleoedd cwmpïadau awyrennau, gorsafoedd radar, ffatrioedd milwrol a gwersylloedd carcharorion rhyfel. Roedd lleoliad cymharol bell Cymru o'r Cyfandir yn ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu offer milwrol, hyfforddi, gwneud gwaith cynnal a chadw a phrofi arfau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd Cymru yn rheng flaen Brwydr yr Iwerydd. Roedd canolfannau milwrol yn amddiffyn yr Arfordiroedd Gorllewinol, yn enwedig rhag goresgyniad posibl yr Almaenwyr o Iwerddon, tra roedd meysydd awyrennau ymladd yn amddiffyn y trefi diwydiannol. Cynlluniwyd y safleoedd hyn fel systemau integredig yn gwarchod y Deyrnas Unedig.

Ceir hefyd safleoedd pwysig o'r Rhyfel Oer, yn cynnwys gorsafoedd radar a safleoedd amddiffyn sifil. Roedd rhai o strwythurau'r Rhyfel Oer yn rhannau o systemau a oedd yn cynnwys Ewrop a Gogledd America yn ogystal â'r Deyrnas Unedig.

Pam fod gwerth i'r safleoedd hyn?

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn bwysig i gymunedau, ac mae diddordeb y cyhoedd mewn safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif yn parhau i dyfu. Oherwydd iddynt gael eu hadeiladu o fewn cof yr oes hon, gallwn gael dealltwriaeth lawnach o'u hanes. Hefyd, mae gan nifer o bobl gysylltiadau uniongyrchol â'r safleoedd hyn trwy brofiadau eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau yn ystod y rhyfel. Er y gallai rhai ystyried bod y safleoedd

Caer danddaearol o gyfnod yr Ail Ryfel Byd yn Nant Ffrancon yng Ngwynedd. © Cadw



hyn yn ddadleuol neu'n annymunol, mae angen i ni weithredu i ddiogelu'r safleoedd gorau sydd wedi goroesi — maent yn rhan bwysig o hanes Cymru.

Goroesi a dinistrio

Cliriwyd nifer o safleoedd yn syth ar ôl y rhyfeloedd a dychwelodd y tir i'w ddefnydd blaenorol. Fodd bynnag, maent yn parhau i gael eu dinistrio hyd heddiw oherwydd nad yw rhai strwythurau'n cael eu deall na'u gwerthfawrogi. Ceir hefyd bygythiadau newydd megis mwy o alw am safleoedd adfywio tir llwyd a'r broblem bosibl o gloddio heb oruchwyliaeth. Mae strwythurau sydd bellach dros chwedeg oed hefyd yn wynebu dadfeilio anochel.

Beth allwn ei wneud?

Gall cynnwys yr henebion hyn ar y Rhestr o Henebion o Bwysigrwydd Cenedlaethol neu'r Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig eu diogelu; o ran olion o bwysigrwydd lleol neu ranbarthol, gall y broses gynllunio helpu i sicrhau eu cadwraeth.

Mae'r safleoedd cofrestredig yn cynnwys gorsafoedd radar, safleoedd gynnu gwrth-awyrennau a chaerau tanddaearol. Mae'r adeiladau rhestredig yn cynnwys ffatri arfau cemegol Rhyd-y-mwyn, Sir y Fflint, a'r bloc llety yng nghynfaes awyr Dale, Sir Benfro, gyda gwaith celf o'r 1940au.

Gellir hefyd sicrhau cadwraeth drwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o arwyddocâd yr hyn sy'n goroesi, a gweithio gyda chymunedau lleol i ddechongli'r safleoedd pwysig hyn.

Adeiladwyd y ffatri arfau cemegol yn Rhyd-y-mwyn, Sir y Fflint, yn 1939 ar gyfer cynhyrchu nwy mwstard yn ystod y rhyfel. © CBHC



Deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio allweddol

- Mae Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio a chynnal Cofrestr o Henebion o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Fel arfer mae angen caniatâd Cadw ar gyfer gwneud unrhyw waith ar henebion cofrestredig.
- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae angen caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer gwneud gwaith sy'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru a chanllawiau cylchlythyron ategol (60/96, 61/96 a 1/98) yn esbonio polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r meini prawf a ddefnyddir i nodi henebion ac adeiladau ar gyfer gwarchodaeth statudol.
- Mae cynlluniau datblygu ar gyfer pob awdurdod lleol a pharc cenedlaethol yn cynnwys polisiau i warchod archeoleg, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol a nodwyd yng Nghofnodion rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Gall mentrau amaeth-amgylcheddol hefyd helpu i warchod yr henebion hyn.

Gwaith celf o'r 1940au ar furiau bloc llety Gwasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol ym maes awyr Dale, Sir Benfro. © Cadw





Cadw

Plas Carew, Uned 5–7 Cefn Coed, Parc Nantgarw,
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn 01443 336000 www.cadw.cymru.gov.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Plas Crug, Aberystwyth SA23 1NJ

Ffôn 01970 621200 www.cbhc.gov.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (Archeoleg Cambria)

Neuadd y Sir, 8 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin SA19 6AF

Ffôn 01558 823121 www.cambria.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys

7a Stryd yr Eglwys, Y Trallwng, Powys SY21 7DL

Ffôn 01938 553670 www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor,
Gwynedd LL57 2RT

Ffôn 01248 352535 www.heneb.co.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Tŷ Heathfield, Heathfield, Abertawe SA1 6EL

Ffôn 01792 655208 www.ggat.org.uk



- 1 Roedd yr orsaf radar o gyfnod yr Ail Ryfel Byd uwchben Margam, Castell-nedd Port Talbot, yn rhan o rwydwaith i ganfod llongau ac awyrennau a oedd yn hedfan yn isel ym Môr Hafren. © Cadw
- 2 Cilfach danio sefydlog o gyfnod y Rhyfel Oer a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r taflegryn 'Sea Slug' yn Ffatri Tanwyddau'r Llynges Frenhinol yng Nghaer-went, Sir Fynwy. © Cadw
- 3 Merched y Gwasanaeth Tiriogaethol Atodol yn gweithredu offer canfod pellter mewn gwersyll hyfforddi gwrth-awyrennau yn Nhy-croes, Ynys Môn, ar 19 Tachwedd 1941. © IWM H15654
- 4 Mae'r gofeb ryfel ym Mhwllheli, Gwynedd, yn coffau'r sawl a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd. © Medwyn Parry

- 1 *The World War II radar station above Margam, Neath Port Talbot, was part of a network to detect shipping and low flying aircraft in the Bristol Channel. © Cadw*
- 2 *Cold War static firing bay used in the development of the Sea Slug missile at the Royal Naval Propellant Factory, Caerwent, Monmouthshire. © Cadw*
- 3 *Auxiliary Territorial Service women operating rangefinding equipment at an anti-aircraft training camp in Tycroes, Anglesey, on 19 November 1941. © IWM H15654*
- 4 *The war memorial at Pwllheli, Gwynedd, commemorates those who lost their lives in both World Wars. © Medwyn Parry*